

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Rhwydwaith Arddangos
Technoleg tagiau clust yn
fferm Cefngwilgy Fawr

Canolfan Gyfnewid Gwybodaeth
Rheoli mawnogydd i storio carbon



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
yghr Ddiwygio Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardalysedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhifyn 36 – Tachwedd/Rhagfyr 2021 | www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Canfod afiechyd yn gynnar yn allweddol i ddiogelu lloeau rhag effeithiau niwmonia ar eu hiechyd

Mae'r teulu Jones yn cadw buches o 50 o fuchod magu yn fferm Cefngwilgy Fawr, Llanidloes.

Rhoddwyd diagnosis mai mycoplasma bovis oedd yn achosi niwmonia yno dair blynedd yn ôl ac mae'r achosion wedi cynyddu ers hynny i effeithio ar 25% o lloeau'r fuches.

"Dyma ein maen tramgwydd," dywedodd Edward Jones, sy'n ffermio gyda'i wraig, Kate, a'i dad, Gareth.

Mae canfod yr afiechyd yn gynnar yn allweddol, achos, ar ôl i'r heintiad gael gafael gall fod yn anodd ei drin ac felly fel rhan o'u rôl yn ffermwyr arddangos Cyswllt Ffermio mae'r teulu yn treialu tagiau clust sy'n mesur gweithgaredd a gwres: â'r bwriad o ganfod salwch hyd at dri diwrnod cyn i'r arwyddion gweledol ddod yn amlwg.

Os caiff yr heintiad ei ddal yn y ddau i dri diwrnod cyntaf, mae lloeau yn llawer mwy tebygol o wella'n llwyr.

Gosodwyd y tagiau ym mis Ebrill 2021 ac mae'r canlyniadau hyd yn hyn wedi bod yn gymysg, cyfaddefodd Kate.

"Mae'r tagiau wedi amlygu rhai o'r achosion, ac fe wnaethon nhw hefyd amlygu un llo oedd â chocsidiosis, ond mae'n anodd penderfynu a ydyn nhw'n hyfyw yn ariannol i fuches bïff fasnachol fel ein un ni," dywedodd.

"Petai gennych chi fuches bedigri, rhywbeth ar ben uchaf y raddfa, efallai y byddai'n werth edrych ar y system."

Ond mae'n credu bod gan y dechnoleg botensial wrth iddo ddatblygu ymhellach.

Mae'r teulu Jones yn gobeithio y bydd y tagiau a thrin yn brydlon yn lleihau'r achosion o niwmonia i 5%.

Gall niwmonia gael un o'r effeithiau mwyaf ar gynhyrchiant a phroffidioldeb buchesi bïff.

Dywedodd y milfeddyg, George Roberts, o Hafren Vets, mai rheoli iechyd a maethiad y llo o'r eiliad y mae'n cael ei eni sy'n allweddol.

Er mwyn rhoi'r imiwnedd hanfodol, roedd yn cynghori rhoi pedwar litr o golostrwm o safon uchel cyn pen dwy awr o eni'r llo ac yna dilyn hynny gyda phedwar litr arall yn y 24 awr nesaf.

Profwch y colostrwm gyda refractomedr neu golostromedr i sicrhau ei fod o safon ddigon uchel a sicrhau bod yr holl offer a ddefnyddir i borthi yn eithriadol o lân.

"Mae colostrwm yn fagwrfa wych i facteria. Os caiff ei adael mewn bwced am ddwy awr, mae ganddo botensial gwirioneddol i wneud llo yn sâl," dywedodd Mr Roberts.

Dylai llo dderbyn 15% o bwysau ei gorff mewn llaeth bob dydd ac, am bob gostyngiad o 5°C mewn tymheredd, dylai traean arall o litr gael ei roi, cynghorodd Mr Roberts.

Cynigiwch ddŵr glân ffres bob amser o'u genedigaeth ac, yn bythefnos oed, cynigiwch ddwysfwyd, gwellt neu wair i'w fwyta, i helpu'r perfedd i aeddfedu a hybu cymhareb trosi porthiant.

"Mwyaf yn y byd o borthiant a bwyd solid gallwch eu cael i fwyta cyn diddfnu,



**KATE AC
EDWARD JONES**
Cefngwilgy Fawr, Llanidloes

gorau'n byd fydd eu twf ar ôl diddyfnu, a bydd y broses ddiddyfnu'n llai o straen," dywedodd Mr Roberts.

Os bydd salwch yn torri allan mewn lloeau ifanc, gall profi gwaed y lloeau rhwng diwrnod a saith diwrnod oed i wirio am lefelau'r gwrthgyrff fod yn ddull da o sefydlu a ydyn nhw'n cael digon o amddiffyniad o'r colostrwm.

Os ydyn nhw, gall pwysedd yr heintiad achosi salwch a dylid ystyried brechu.

Gall rhai brechiadau gael eu rhoi mor fuan ag ychydig ddyddiau oed, sy'n helpu i roi amddiffyniad cynnar. Mewn rhai achosion,


awgrymir rhoi brechiad i'r buchod i ddiogelu eu lloeau trwy'r colostrwm.

"Mae brechu yn ddrud ond nid yw mor ddrud ag ymdrin ag ymosodiad mawr gan niwmonia," nododd Mr Roberts.

Mae amgylchedd llo yn bwysig o ran ei iechyd.

Rhaid i'r deunydd dan yr anifeiliaid fod yn lân a bod digon ohono i lo nythu ynddo – dylai ei goesau fod o'r golwg pan fydd yn gorwedd.

Mae dwyster y stocio, ansawdd yr aer a'r tymheredd i gyd yn ystyriaethau pwysig ar gyfer buches iach.



Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, ewch i wefan
Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltffermioeinfffermydd

Gwneud gwelliannau i reolaeth defaid a'u siediau wedi helpu ffermwr defaid i leihau'r gyfradd o fastitis yn ei ddiadell o draean

Bu mastitis yn un o'r prif elfennau sydd wedi achosi colledion yn niadell Ryan Morris o bron i 1,000 o famogiaid ym Maestanyglwyden ger Croesoswallt.

Byddai tua 10% o'r ddiadell (90-100 mamog) yn cael mastitis yn flynyddol.

"Cawsom broblemau trwy gydol y flwyddyn, er mai'r gwanwyn oedd yr amser gwaethaf," dywedodd Mr Morris, a gymerodd drosodd gan ei daid bum mlynedd yn ôl ac erbyn hyn mae'n ffermio gyda'i bartner, Rebecca Greaves.

Dangosodd samplau o'r llaeth bod y bacteria sy'n achosi mastitis, *Staphylococcus aureus* (*S. aureus*) yn bresennol a *Mannheimia haemolytica*.

Ochr yn ochr â milfeddygon y fferm, Cain Farm Vets, cefnogodd Cyswllt Ffermio gynllun treialu ar y fferm, i sefydlu pa ffactorau sy'n dylanwadu ar nifer yr achosion mastitis ac i helpu i fod yn sail i gynllun i leihau'r achosion hynny.

Bu'r cynllun treialu yn monitro'r achosion o fastitis mewn 500 o famogiaid oedd yn cario gefeilliaid o'r ddiadell sy'n ŵyna ym mis Mawrth.

Defnyddiwyd samplau gwaed i asesu maethiad y ddiadell dair wythnos cyn ŵyna; gwelwyd bod y diet yn bodloni gofynion y mamogiaid o ran protein ac egni yn hwyr yn eu beichiogrwydd.

Brechwyd y mamogiaid â Heptavac P, brechiad clostridial sy'n cynnwys *Mannheimia haemolytica*, a rhoddwyd brechiad ategol bedair wythnos cyn ŵyna.

Gwnaeth Mr Morris sawl gwelliant i'w siediau i leihau dwyster y stocio – cynyddwyd y lle o chweched ran i leihau'r llwyth o bathogenau yn y sied.

Cynyddwyd y nifer o gorlannau bach penodol i famogiaid oedd newydd ŵyna fel y gellid symud y mamogiaid allan o'r brif ardal ŵyna i gorlannau glân cyn pen dwy awr.

Rhoddwyd sylw manwl i lendid – roedd yr holl staff yn gwisgo menig hyd braich taflu i ffwrdd i ŵyna a menig byr ar gyfer swyddi fel rhoi ŵyna i sugno, i leihau'r risg y bydd bacteria yn lledaenu rhwng y defaid ac ar eu tethi.

Pan ddaeth yr astudiaeth i ben yng Ngorffennaf 2021, gwelwyd bod y gyfradd fastitis gyffredinol wedi gostwng o 10% i 6.8%.

Yn ôl Alana Jackson, o Cain Farm Vets, y milfeddyg a gychwynnodd y cynllun treialu, mae hyn yn deillio o gyfuniad o ffactorau, yn benodol llai o ddwyster stocio a gwell hylendid.

"Bydd lleihau'r llwyth pathogen y mae mamogiaid yn agored iddo wrth ŵyna, pan fydd eu system imiwnedd ar ei wannaf, yn cael effaith fawr," cyngorodd.

Bydd parhau i borthi mamogiaid hyd at eu llaethiad mwyaf a hyd at chwe wythnos ar ôl eu troi allan, hefyd yn helpu trwy sicrhau bod y llaeth a gynhyrchir yn ddigonol, ychwanegodd.

Os nad yw mamog yn cynhyrchu digon o laeth, bydd ŵyna yn sugno yn amlach a gall hyn achosi difrod i'r deth, gan gynyddu'r risg y bydd mamog yn datblygu mastitis.

Dywed Ms Jackson bod mastitis mewn mamogiaid yn fwy o broblem ar rai ffermydd na'i gilydd.

“Mae’n afiechyd aml-ffactor sy’n ei wneud yn anodd ei reoli,” cyfaddefodd.

“Mae’r cynllun treialu hwn ar y fferm yn dangos bod ‘addasu’ nifer o agweddau ar y rheolaeth yn y ddiadell wedi cael effaith gadarnhaol. Ond, nid oes un ateb i bopeth.”

Brechu i atal mastitis

Rhan arall o’r cynllun treialu oedd brechu mamogiaid gyda brechlyn sy’n diogelu mamogiaid rhag mastitis sy’n cael ei achosi gan *S. aureus*.

Brechwyd hanner y grŵp astudio.

Dywed Ms Jackson bod dadansoddiad o’r data yn dangos nad oedd gwahaniaeth ystadegol yn y cyfraddau mastitis rhwng y grwpiau wedi eu brechu a heb eu brechu yn y cynllun treialu bychan hwn.

Ond mae’n rhybuddio yn erbyn llunio casgliadau o hyn oherwydd mai dim ond 500 o famogiaid oedd yn yr astudiaeth.

“Efallai bod effaith gadarnhaol y brechiad yn gynnig iawn, ac y byddai cael mwy o famogiaid yn yr astudiaeth wedi dangos bod gan famogiaid wedi eu brechu gyfradd achosion sylweddol is o fastitis,” dywedodd Ms Jackson.

Cred y bydd rhoi hwb i imiwnedd y mamogiaid i *S. aureus* gyda’r brechlyn wedi gwella eu himiwnedd.

	Wedi eu brechu	Heb eu brechu	Cyfanswm
Sgôr Cyflwr Corff Cyfartalog	3.53	2.86	—
Cyfanswm y mamogiaid	225	214	439
Nifer yr achosion o fastitis	14	16	30
% o achosion mastitis	6.22%	7.48%	6.8%

Tabl 1. Achosion mastitis mewn mamogiad wedi eu brechu a heb eu brechu ym Maestanglwyden yng Ngorffennaf 2021

FFEITHIAU AM Y FFERM

162 HECTAR
YN CAEL EU
FFERMIO



DDIADELL CROES TEXEL,
MIWL A CHROES BELTEX



Y BRIF DDIADELL YN
SGANIO AR 195%



ŴYN BENYWYN
SGANIO AR 145%




ŴYNA RHWNG
CHWEFROR AC EBRILL



YR ŴYN YN CAEL EU GWERTHU’N
FYW YM MARCHNADOEDD Y
TRALLWNG A CHROESOSWALLT





Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, ewch i wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd

Bodwi – Safle Arddangos

Safle Arddangos: Bodwi, Mynytho, Pwllheli, Gwynedd

Swyddog Technegol: Non Williams

Teitl y Prosiect: Adolygu'r fenter bîff drwy ystyried manteision posib cynydu cartref

Cyflwyniad i'r prosiect:

Ar fferm Bodwi, mae prisiau bîff cyfnewidiol yn ogystal â'r gost gynyddol o brynu dwysfwyd wedi arwain y ffermwyr i archwilio manteision pesgi teirw bîff ar ddietau o gynnydd cartref.


Nod y prosiect yw pennu effaith addasu'r system fwydo (h.y. tyfu haidd gwanwyn a'i fwydo i'r fuches) ar broffidoldeb y fenter bîff, yn ogystal â chynaliadwyedd amgylcheddol y fferm.

Canlyniadau'r prosiect:

Aeth teirw 2020-2021 i'r lladd-dy rhwng 13-15 mis oed a chafodd perfformiad y teirw ei fonitro o ddiddlyfnu hyd at besgi. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y teirw'n bwyta haidd wedi'i drin (cafodd y mwyafrif ohono ei dyfu ar y fferm, gan brynu gweddill yr haidd wedi'i drin i mewn er mwyn sicrhau digon o borthiant hyd at eu lladd), silwair a mwynau. Cyfanswm y pwysau byw a gynhyrchwyd ar gyfer 69 tarw o ddiddlyfnu i'w lladd oedd 23,805kg. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 345kg y pen. Sylwch nad oedd y ffigwr hwn wedi'i gymharu'n uniongyrchol â ffigwr y flwyddyn flaenorol, gan fod costau cynhyrchu wedi cael eu cyfrifo o ddechrau mis Ionawr yn 2019-20 (lle'r oedd cyfran

o'r teirw'n cael eu hanfon i uned arbenigol) hyd at besgi, yn hytrach nag o'r cyfnod diddlyfnu ymlaen.


Serch hynny, mae costau cynhyrchu wedi cael eu cymharu â chostau'r flwyddyn flaenorol, wedi'u cyfrifo ar sail cost cyfartalog fesul kg o gynnydd pwysau byw (LWG) (Ffigwr 1). O ganlyniad i besgi'r teirw ar haidd a silwair cartref yn 2020-21, arbedodd y ffermwyr £0.45/kg LWG o'i gymharu â'r gost o besgi anifeiliaid ar ddwysfwydydd wedi'u prynu i mewn a gwellt cartref yn y flwyddyn flaenorol.



Ffigwr 1: Costau cynhyrchu cyfartalog pob system besgi o 2019-20 a 2020-21.

Mae'r holl ddata ynglŷn â mewnbynnau porthiant, ynghyd â data helaeth o fentrau eraill ar y fferm, yn cael ei fewnbynnu i offeryn cyfrifo ôl-troed carbon i bennu effaith gwahanol strategaethau bwydo ar ôl-troed carbon y fferm.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, ewch i wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd





RHAGORI AR BORI
PROSPER FROM PASTURE

Cyfnod ymgeisio Rhagori ar Bori ar agor nawr

Mae ffermwyr Cymru yn ffodus o gael ffermio mewn gwlad gyda phriddoedd addas a hinsawdd i dyfu llawer o laswellt o ansawdd uchel. Mae'n rhaid i gynhyrchwyr yng Nghymru ddefnyddio'r adnodd gwerthfawr hwn i wella cynaliadwydd eu mentrau da byw i'w potensial llawn.

Mae'r newidiadau i systemau cefnogi ffermydd a'r posibilrwydd o bris cynnyrch yn mynd yn fwy anwadal wedi cynyddu'r angen i chwilio am ffyrdd o leihau costau trwy ddefnyddio ein porthiant da byw mwyaf cost effeithiol yn fwy effeithlon. Mae Rhagori ar Bori yn rhaglen fer gyda 3 lefel sydd â'r nod o ddatblygu eich gwybodaeth a'ch hyder wrth reoli'r borfa – Lefel Mynediad, Canolradd – neu Meistr ar Borfa, a'r lefel Uwch.

Mae gwybodaeth bellach am gynnwys pob lefel ar wefan Cyswllt Ffermio:
businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/tir/glaswellt/rhagori-ar-bori

Bydd y cyfnod ymgeisio ar agor o 1 Tachwedd 2021 hyd 30 Tachwedd 2021.

I fod yn rhan o raglen Rhagori ar Bori 2022, rhaid i bob unigolyn gwblhau ffurflen Datgan Diddordeb, sydd ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio a chadarnhau fod gan eu busnes Gynllun Rheoli Maetholion dilyn.



Carys Jones

Caiff y ffurflenni eu hasesu'n unigol a bydd rhaid i chi benderfynu pa lefel sydd orau ar eich cyfer chi a'ch busnes i wella dyfodol eich systemau da byw yn seiliedig ar borfa.

Ar ôl cwblhau'r lefel Mynediad, mae'n bosib symud ymlaen i'r lefel Canolradd. Ar ôl cwblhau'r lefel Canolradd, mae'n bosib symud ymlaen i'r lefel Uwch

Mae ymuno â'r rhaglen Rhagori ar Bori wedi rhoi'r hyder i Carys Jones, ffermwr bîff a defaid o Carregcynffyrdd ger Llandeilo, ddefnyddio gwahanol dechnegau pori.

“Er fy mod wedi gweld y systemau hyn yn gweithio yn Seland Newydd, nid oedd gen i'r hyder i'w rhoi ar waith yma gan fy mod i ofn gwneud camgymeriad.”

“Rydym yn gynnar yn y broses o newid ein system, ond rydym ni'n bendant yn tyfu mwy o laswellt o ansawdd gwell, ac nid yw'r glaswellt yn cael ei sathru gymaint ag y byddai gyda system stocio sefydlog. Rydym yn gobeithio yn y dyfodol agos y gwelwn y buddion ac y gallwn roi ffigurau cadarn ynglŷn â buddion costau ac arbedion ar wrtaith a phorthiant a brynir i mewn.”

Canolfan Gyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio

Mae'r Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth (KE Hub) yn IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ein cydweithwyr yno yn cyflawni swyddogaeth bwysig wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ymchwil gwyddonol i ffermwyr a choedwigwyr.

Rheoli mawnogydd i storio carbon

Yma mae Dr William Stiles o Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio yn esbonio pam bod mawn yn adnodd mor werthfawr a'r cyfraniad pwysig y gall ei wneud at wrthweithio newid hinsawdd. Mae Cymru'n cynnwys llawer iawn o fawnogydd a, thrwy ymyrryd yn ofalus, mae'n cynnig y potensial i weithredu fel cronfa garbon hanfodol.

Mae systemau mawnogydd yn storfeydd carbon sydd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Dyma'r storfa garbon ddaearol fwyaf, ac maent yn cynnwys mwy o garbon na'r holl fathau eraill o lystyfiant yn y byd gyda'i gilydd, gan gynnwys fforestydd. Dim ond tri y cant yn unig o arwyneb tir y ddaear y maent yn ei orchuddio, ond maent yn cynnwys mwy na 550 gigadunnell o garbon, sy'n 42% o'r holl garbon yn y pridd.

Mae mawnogydd yn fath o wlyptir, sy'n cynnwys corydd. Mae planhigion yn pydru'n araf iawn yn yr amgylcheddau llawn dŵr yma, sy'n golygu bod y carbon ym miomas y planhigyn yn cael ei ddal a'i storio wrth iddo ffurfio mawn. Yn araf iawn y mae mawn yn crynhoi (~1mm y flwyddyn), ond dros filenia gall y deunydd hwn gasglu

mewn rhai amgylcheddau i fod yn sawl metr o ddyfnder. Fel y cyfryw, ystyrir bod mawnogydd yn arwyddocaol iawn o ran ymdrechion byd-eang i wrth-weithio newid hinsawdd. Bydd mawnogydd sy'n cael eu rheoli mewn modd anaddas yn troi'n ffynonellau carbon a gallant ryddhau llawer iawn o nwyon tŷ gwydr, â chael canlyniadau negyddol iawn.

Mae gwell rheolaeth ar fawnogydd felly yn elfen allweddol o ddulliau rheoli tir sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd yn y dyfodol i osgoi'r effaith yma. Bydd adfer systemau mawnogydd, sydd wedi dirywio trwy eu haddasu er mwyn cefnogi cynhyrchu bwyd a ffibr, yn hanfodol i ddychwelyd y systemau yma i fod yn sinciau carbon yn hytrach na ffynonellau carbon. Bydd hyn yn golygu cau draeniau ac ail-wlychu corydd, a all gynyddu'r allyriadau methan yn y tymor byr. Fodd bynnag, mae'r rhain yn gam hanfodol i ddychwelyd y cynefin hwn i statws gweithredol. Gall symud cynhyrchiant i ffwrdd o amgylcheddau mor sensitif, gan adael iddynt weithredu fel storfeydd carbon, ar ôl iddynt gael eu hadfer i weithredu, ganiatáu i gynhyrchu ddigwydd yn rhywle arall, gan wrthbwysu effaith


cyffredinol cynhyrchu bwyd, sy'n angenrheidiol.

Mae angen newidiadau cyflym ac eang trwy'r economi er mwyn wynebu'r her o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2050, ac mae'n debygol y bydd cyfyngu'r effaith ar amgylcheddau fel mawnogydd yn nod fydd yn cael blaenoriaeth. Mae newid hinsawdd yn her enfawr ac yn fygythiad i'r sector rheoli tir. Mae maint a graddfa'r newid sy'n angenrheidiol yn ddychrynlyd, ond gellir ei gyflawni.

Ac, os gweithredir yn briodol, gall y gweithredoedd yma fod â'r potensial i gynnig atebion ar gyfer y llu o heriau sy'n bygwth y diwydiant ar hyn o bryd. Beth bynnag a ddigwydd, bydd peidio â gweithredu yn arwain at sefyllfa lle gall cynhyrchu bwyd fynd yn gynyddol heriol. Mae lleihau'r effeithiau ar amgylcheddau fel mawnogydd yn cynnig cyfle cymharol syml i gychwyn rheoli tir sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd, a dim ond newid bychan sydd ei angen yn y dulliau rheoli tir presennol.

Sut mae mawnogydd yn casglu carbon?

Mae rhywfaint o garbon deuocsid (CO_2) yn cael ei ryddhau wrth i blanhigion resbiradu a phedru ond mae'r rhan fwyaf yn cael ei gasglu mewn amodau anaerobig



Caiff methan (CH_4) ei ollwng wrth i blanhigion bydru dan amodau anaerobig

Llystyfiant – Migwyn a glaswelltau

Bydd mawn yn crynhoi dan amodau anaerobig gwlyb sy'n golygu bod y carbon yn cael ei gadw yn hytrach na'i ollwng



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

Gor-odro yn cael ei nodi fel un o'r ffactorau mwyaf sy'n effeithio ar iechyd pysiau'r fuches laeth



Huw Morgan a Dr Sotirios Karvountzis o Mendip Vets

Mae pedwar o ffermwyr llaeth yn Sir Gaerfyrddin gyda buchesi ar gyfartaledd o 260 o fuchod wedi bod yn gweithio'n glos gyda'r Dr Sotirios Karvountzis o Mendip Vets, Llandeilo, i ymchwilio i fanteision patrwm profi deinamig wrth weithio tuag at wella iechyd pysiau trwy leihau lefelau bactoscan ac achosion o fastitis is-glinigol a chlinigol.

Gwneir y profion deinamig gan eu milfeddyg, Dr Karvountzis bob deufis ar bob fferm. Ffordd syml o ddisgrifio profi deinamig yw cymharu profi peiriant godro gyda phrofi car i fynd ar y ffordd. Profi deinamig yw pan fyddwn yn chwilio am broblemau a all niweidio pwrs y fuwch dan bwysau amodau gwirioneddol, na fyddai unrhyw fath arall o brawf parlwr godro statig yn eu canfod.

Beth sy'n cael ei fonitro trwy brofi deinamig:

- Cyfrif celloedd somatig yn y tanciau mawr a bactoscan
- Llif gwael oddi wrth y fuwch
- Achosion o fastitis clinigol
- Y leinin yn ffio'n wael
- Defnyddio triniaeth wrthfotig mastitis
- Y leinin yn llithro
- Llif llaeth mewn dau gyfnod
- Sgorio tethi
- Gor-odro
- Dirgryniad yr offer llaeth

"Nid yw prawf statig yn profi a yw'r dull Tynnu Clwstwr Awtomatig (ACR) wedi ei amseru yn gywir. Er bod rhai parlyrau yn awr yn gweithio ar gyfrifiaduron, ni all parlyrau sy'n fwy awtomataidd bob amser wirio a yw'r dirgrynwyr yn gweithio'n iawn,

er enghraifft, a dyna pam bod profi deinamig yn fwy addas ar gyfer atal problemau gydag iechyd y pwrs", dywedodd Dr Karvountzis.

Mae profi deinamig hefyd yn cynnwys archwilio sampl o'r buchod am unrhyw ffurf abnormal ar flaen y deth, fel unrhyw arwyddion o groen yn tewychu gormod.

Un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd gwael y pwrs sydd wedi ei amlygu trwy'r prosiect hyd yn hyn yw gor-odro. Bydd gor-odro yn digwydd pan fydd gan y fuwch yr unedau godro (a gwactod felly) ar ei phwrs am hwy nag sy'n ofynnol. Wrth or-odro, mae'r peiriant yn godro gyda'r gwacter llawn er bod llif y llaeth yn isel neu heb lif llaeth o gwbl. Y prif achosion ar gyfer hyn yw pan fydd yr ACR wedi eu gosod i dynnu'r unedau godro pan fydd y llif llaeth yn rhy isel (e.e. 200ml/fel isafswm), neu bod yr oedi wrth dynnu'r unedau godro oddi ar y pwrs a diffodd y gwactod o'r leinin llaeth yn rhy uchel (e.e. dros 10 eiliad).

Amlygwyd hefyd bod paratoi'r fuwch cyn ei godro yn faes lle mae profi deinamig wedi arwain at arbed adnoddau a mwy o gynhyrchiant. Mae hyn yn gysylltiedig â ffisioleg gollwng llaeth y buchod.

"Mae ar y fuwch angen i'r deth gael ei hysgogi trwy naill ai eu trochi ymlaen llaw, godro'r blaenion neu lanhau'r tethi neu sŷn y dwysfwyd yn taro'r cafnau bwyd, wrth iddynt fynd i mewn i'r parlwr. Bydd yr ysgogiad yn arwain at ollwng ocsitosin ac felly bydd y llaeth yn cael ei ollwng. Mae paratoi cyn godro a'i amseru yn bwysig iawn oherwydd os nad yw'r amseriad rhwng paratoi'r deth i roi'r uned odro yn cyd-daro â'r llaeth yn cael ei ollwng, bydd llif y llaeth yn cael ei atal dros dro sydd yn cael ei alw yn

ollwng deufodd", meddai Dr Karvountzis.

"Wrth eu hysgogi'n iawn, gellir osgoi rhoi gwactod ar flaen y deth a bydd llai o drawma i flaenau'r tethi, gan wella iechyd y pwrs. Bydd ysgogi digonol cyn godro yn sicrhau bod yr uned yn cael ei gosod mewn pryd a thrwy hynny'n lleihau'r amser a gymerir i odro pob buwch, gan arwain at arbed adnoddau," esboniodd.

Mae Huw Morgan, sy'n ffermio gyda'i rieni, yn un o'r pedwar ffermwr sy'n cymryd rhan yn y prosiect.

"Rwy'n ffermio Fferm Twyn, Nantgaredig ger Caerfyrddin gyda fy rhieni. Mae'n fferm 93 hectar (ha) gyda buches o 160 sy'n lloea'n y gwanwyn a phrynu stoc cyfnewid i mewn. Hwn yw ein hwythfed tymor o odro gan mai fferm biff a defaid oedden ni yn y gorffennol", esbonia Huw.

"Ein cam nesaf yw cynyddu niferoedd y buchod i 200 a gwella ein cyfleusterau. Roeddem am gymryd rhan yn y prosiect oherwydd ein bod yn system mewnbwn isel, allbwn isel felly mae'n bwysig i ni gael yr elw mwyaf o'n buchod ac roeddem yn gweld y prosiect hwn yn gyfle i fireinio'r system ac yn gyfle da i gael buchod iachach sy'n golygu llai o ddefnydd o wrthfotig, sy'n bwysig i bawb. Pysia iachach, llaeth iachach, buwch iachach, balans iachach yn y banc."

Am ragor o wybodaeth am y prosiect EIP hwn, ewch i wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltffermio

Safle Ffocws: Plas yn Iâl

Swyddog Technegol: Dafydd Owen

Teitl y Prosiect: Coedwigaeth gorchudd parhaol mewn coetir fferm

Cyflwyniad i'r prosiect:

Yn gynnar ym mis Rhagfyr 2020, gosodwyd 10 o blotiau sampl yn yr ardal 12.76 ha o goetir yn fferm Plas yn Iâl fel rhan o goetir ymchwil Rhwydwaith Coedwriaeth Afreolaidd (ISN). Dylunnir darn o goed Ymchwil ISN i samplu'r coetir fferm i gofnodi'r mathau o goetir, y cyfansoddiad o ran rhywogaethau a gallu'r coetir o ran cynhyrchiant. Dewiswyd lleoliad y plotiau sampl i gasglu'r amrywiaeth eang o fathau o goetir.

Dangosodd prif ganlyniad y data a gasglwyd bod cyfaint y coetir yn cynyddu ar gyfaint a amcangyfrifir o 7.19m³/ha/flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i tua 90 tonnell o goed y flwyddyn gyda chyfatebiaeth ynni o 178,365kWh y flwyddyn. Maent angen tua 28,000kWh y flwyddyn o danwydd coed, sy'n golygu y gallai cyflwyno Coedwigaeth Gorchudd Parhaol fel techneg o reoli coed roi 76 tonnell neu 150,365kWh o goed y gellir eu gwerthu yn flynyddol. Coedwigaeth gorchudd parhaol yw pan fydd coed unigol yn cael eu torri i gynnal gorchudd coetir parhaol gan ganiatáu cynhyrchu coed masnachol, law yn llaw â bioamrywiaeth fel cynnyrch.


Cam nesaf y prosiect oedd cynnal cynllun treialu synhwyro o bell ar y coetir. Trwy ddefnyddio Model Arwyneb Digidol a Model Tirwedd Digidol, amcangyfrifwyd y Model Uchder Canopi (uchder gwirioneddol y coed oddi wrth y ddaear). Yn ychwanegol at hyn, amcangyfrifwyd gorchudd y canopi i gyfrifo cyfaint rhannau o'r coetir.

Amcan y cynllun treialu synhwyro o bell oedd ei gymharu â chanlyniadau'r arolwg ISN ac amlygu potensial ei gost-effeithiolrwydd wrth ddeall strwythurau coetir ar ffermydd dros ardaloedd mwy. Cyfunwyd y data o'r ddau arolwg hefyd i greu Cynllun Rheoli Coetir Gorchudd Parhaol.

Prif gasgliad y synhwyro o bell oedd y gall roi cyfrif cywir iawn o foncyffion ar gyfer planhigfeydd conwydd oherwydd ei allu i wahaniaethu rhwng copa coed gwahanol. Ym Mhlas yn Iâl, coed llydanddail sydd fwyaf amlwg, ac felly roedd yn anodd cyfrifo'r boncyffion ar adegau. Er gwaethaf hyn, mae'r canlyniadau yn rhoi tystiolaeth o ddefnyddioldeb synhwyro o bell i gynorthwyo wrth asesu trosglwyddo i orchudd parhaol.

Ar ôl ysgrifennu Cynllun Rheoli Coetir a chael trwydded i dorri coed, bydd y clystyrau yn cael eu rheoli i'w trawsnewid yn Goedwig Gorchudd Parhaol i fodloni'r galw lleol am danwydd coed ac i gynhyrchu pren o safon uchel, cynaliadwy.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, ewch i wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd



Gwerthu neu beidio gwerthu fy nghredyd carbon?

CO₂



Bydd dyfodol cymorthdaliadau yn newid gyda'r pwyslais ar daliadau am nwyddau cyhoeddus, sydd, ar ffermydd, yn anelu at ddiogelu a gwella bioamrywiaeth, storio carbon a chreu darpariaeth ar gyfer systemau ecosystem.

Bydd y buddsoddiad mewn isadeiledd gwyrdd yn rhoi'r gallu i gynyddu'r carbon a gaiff ei storio a fydd yn hanfodol o ran lleihau ôl troed amgylcheddol y fferm a gwella perfformiad y busnes.

Ond a ydym yn gwybod pa adnoddau sydd gennym ar gael ar y fferm ar hyn o bryd i wneud y penderfyniadau angenrheidiol? Gall cynllunio a gweithredu archwiliad carbon yn awr ddynodi gwaelodlin i gyfiawnhau dangos bod arferion rheoli'n gweithio i leihau allyriadau gan ddiogelu a chynyddu'r stoc o garbon.

I fusnesau sy'n dal a storio carbon trwy sefydlu coetiroedd newydd neu adfer mawnogydd, gellir cyfrifo faint o garbon sy'n cael ei ddal a'i storio a'i fesur ar ffurf credydau carbon. Credyd carbon yw tystysgrif y gellir ei masnachu sy'n cynrychioli'r hawl i allyrru un dunnell fetrig o garbon deuocsid (CO₂) a gall y carbon y gellir profi iddo gael ei gasglu gael ei werthu i fusnesau eraill sydd am wrthbwysu eu hól troed carbon eu hunain.

Cyn dilysu'r credydau carbon fe'u gelwir yn "Unedau i'w Cyhoeddi" (UIC). I bob pwrpas, mae hwn yn 'addewid i gyflawni' Uned Garbon yn y dyfodol, yn seiliedig ar y cynnydd a ragwelir. Nid ydynt yn 'warantedig', ac ni ellir eu defnyddio i adrodd yn erbyn allyriadau yn y DU nes eu bod wedi'u gwirio a'u trosi'n gredyd carbon. Mae yna gwmnïau a fydd yn, prynu UIC ond ar ffraciwn o'r pris masnachu ar gyfer unedau carbon wedi'u gwirio.

Gall gwybodaeth am farchnadoedd carbon fod yn heriol i'w ddeall oherwydd gall pob cwmni brocer fod â strwythur gwahanol ar gyfer taliadau, gwirio a chontractau. Cynghorir ffermwyr sy'n ystyried gwerthu credydau carbon i ystyried yr holl farchnadoedd yn ofalus a sicrhau eu bod yn deall telerau ac amodau cymryd rhan cyn llofnodi'r contract.

Yn fwy na dim, dylai ffermwyr ystyried eu nodau sero net eu hunain a gweithredu archwiliad carbon cyn unrhyw werthiant carbon wedi ei ddilysu, gan y gallent fod eu hangen i gyrraedd eu targed sero net eu hunain. Ar ôl i'r unedau carbon wedi eu dilysu gael eu gwerthu gan y busnes, mae'n bwysig deall na ellir eu defnyddio eto yn y cyfrifiad carbon ar gyfer y busnes hwnnw gan y byddai hynny'n fater o gyfrifo dwbl.

Gyda'r pwysau cynyddol ar y sector amaethyddol i wella ei berfformiad amgylcheddol ac ar yr un pryd parhau yn gynaliadwy, mae gan Cyswllt Ffermio amrywiaeth o adnoddau a gwasanaethau yn ymwneud â charbon.

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan Cyswllt Ffermio: lyw.cymru/cyswlltffermio

Geraint Jones, Swyddog Technegol
Coedwigaeth, Cyswllt Ffermio

Fferm laeth yn ceisio lleihau lloia dros nos gyda chefnogaeth gan brosiect Cyswllt Ffermio

Mae fferm laeth yn Sir Ddinbych yn addasu ei strategaeth rheoli a bwydo gwartheg sych er mwyn ceisio lleihau lloia dros nos.

Mae Bryn Farm, Tremeirchion, yn symud y patrwm lloia yn ei buches 90 buwch o system gydol y flwyddyn i floc hydref a gallai hynny fod yn heriol ar y system sy'n cael ei rhedeg gan y teulu os oes cyfran uchel o wartheg sy'n lloia dros nos.

Mae Aled Potts, sy'n ffermio gyda'i ewythr, Dilwyn Hughes, yn gweithio gyda Cyswllt Ffermio ar brosiect safle ffocws i ystyried a all newidiadau a wneir i ddulliau rheoli a diet yn ystod y cyfnod trosi gynyddu nifer y gwartheg sy'n lloia yn ystod y dydd, pan fo llafur ar gael yn fwy parod a phan ellir rhoi mwy o sylw i'r fuwch ac i roi colostrwm i'r llo newydd-anedig.

Mewn gweminar ddiweddar, dywedodd swyddog technegol llaeth Cyswllt Ffermio ar gyfer gogledd Cymru, Rhys Davies, fod sawl budd o gael cyfran uchel o'r fuches yn lloia yn ystod y dydd.

Gellir rhoi gwartheg sydd newydd fwrw lloia mewn llociau unigol yn gynt, gan ganiatáu i fwydo ddigwydd yn brydlon a thrwy hynny leihau problemau metabolaidd wedi geni.

Mae mantais hefyd y caiff y colostrwm ei gymryd o'r fuwch a'i roi i'r llo yn gyflym a bod y colostrwm o ansawdd uwch.

Mae llai o bwysau ar ffermwyr am fod llai o darfu ar eu cwsig ac mae mwy o gyfleoedd i bobl fod yn bresennol yn ystod y dydd i sylwi ar broblemau.

Yn Bryn Farm mae gwartheg sydd dair wythnos o'r dyddiad lloia yn cael cynnig

porthiant ffres rhwng canol a diwedd y prynhawn tra bod y grŵp sydd i loia cyn pen tair wythnos yn cael ei atal rhag bwydo rhwng 12:00 a 18.30, ac yn cael mynediad i fuarth gwellt a dŵr yn unig. Caiff rholiau ar gyfer gwartheg sych eu cynnig ynghyd â mynediad ad-lib i borthiant o 18.30 ymlaen. Mae gofod bwydo digonol yn hanfodol yn ystod y cyfnod bwydo hwn a dylai o leiaf 85cm y fuwch o ofod bwydo fod ar gael ar draws y ffens fwyd.

Bydd gwartheg yn cael eu dilyn drwy gydol y cyfnod llaetha i gymharu eu cynnyrch, eu ffrwythlondeb ac unrhyw ystyriaethau metabolaidd rhwng gwartheg a fwrodd eu lloia ar wahanol adegau.

Mae'r arbenigwr ar faetheg anifeiliaid cnoi cil, William McNiece o Massey Feeds, sy'n rhoi cyngor ar faetheg yn Bryn Farm ers pedair blynedd, yn cyfrannu at reoli'r gwaith o drosi.

Dywedodd Mr McNiece yn ystod y weminar fod pwysau enfawr ar y fuwch adeg lloia, o gyfuniad o newid i'w diet, rhoi genedigaeth i lo a chynhyrchu llaeth.

"Pan mae buwch yn cynhyrchu 30-35 litr o laeth y dydd mae hi'n defnyddio gwerth cyfatebol o ynni y mae person yn rhedeg marathon yn ei ddefnyddio, ac mae hi'n gwneud hynny bob dydd," meddai.


Er mwyn paratoi'r fuwch ar gyfer hyn, rhaid cynnal sgôr cyflwr y corff (BCS) o 3.25-3.5 am 100 diwrnod cyn ei sychu.

"Peth ffôl ydy ceisio gwella'i chyflwr yn ystod y cyfnod sych am fod gwartheg yn dyddodi braster o amgylch yr organau mewnol," meddai Mr McNiece.

Canran y buchod wnaeth loea ar adegau gwahanol o'r dydd yn fferm Bryn



Nifer y buchod = 52



Graff 1. Canran y buchod wnaeth loea ar adegau gwahanol o'r dydd yn fferm Bryn hyd at 22 Hydref.

Roedd yn annog ffermwyr i beidio ag anghofio'r rhai sy'n rhoi cynnyrch isel. "Gall fod tuedd i roi gwair a 2kg o ddwysfwyd iddyn nhw a'u gadael i fwrw ymlaen â phethau ond mae angen rheoli'n fwy gofalus na hynny."

Mae gwirio statws mwynau yn hanfodol oherwydd wrth i gymeriant o ddwysfwyd gael ei leihau felly hefyd y gwnaiff y mwynau a roddir drwy'r llwybr porthiant hwn.

"Cymerwch waed a gwirio statws mwynau'r fuwch i addasu ei chymeriant o fwynau ar gyfer y cyfnod blaetha nesaf," meddai Mr McNiece.

Mae sicrhau'r cymeriant gorau posib o ddeunydd sych (DMI) yn y cyfnod sych yn bwysig oherwydd po fwyaf y mae buwch yn ei fwyta y mwyaf y bydd yn cynnal ei BCS a'r mwyaf o laeth y bydd yn ei gynhyrchu ar ôl lloia.


"Mae cysylltiadau enfawr rhwng DMI yn y cyfnod lloia a DMI ar ôl lloia," esboniodd Mr McNiece.

"Mae cymeriant DMI o 13-14kg yn y cyfnod trosti yn werth 1-2 litr ychwanegol ar frig y cyfnod blaetha. Mae hynny'n gynydd ariannol rhwydd."

Roedd yn argymhell gwahanu gwartheg dan risg cyn lloia a'u bwydo'n briodol – gallai'r rhain fod yn wartheg sy'n gloff neu wedi'u cyflyru'n ormodol. "Tynnwch y straen oddi arny'n nhw," ychwanegodd.

Diet yn y cyfnod sych sy'n cael y dylanwad mwyaf ar atal twymyn blaeth.

Mae Mr McNiece yn ffafrio bwydo diet cymhareb catïon i anion dietegol (DCAD) negyddol yn y tair wythnos cyn lloia neu rwymwyr calsiwm.



Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, ewch i wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltfermioeinffermydd

E-DDYSGU

Tachwedd MODIWLAU'R MIS

Mae ein cyrsiau e-ddysgu rhyngweithiol yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau fydd yn eich cynorthwyo i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth newydd a phresennol ac yn gwella arferion gwaith o fewn eich busnes.



TIR

Deall y Manteision o Goed ar Ffermydd yr Ucheldir
Newid yn yr Hinsawdd a Rheoli Tir
Rhywogaethau Ymledol



DEFAID

Rhywogaethau Glaswelltir
Pori Da Byw ar Fetys Porthiant
Rheoli Llyngyr yr iau mewn Defaid



BÎFF

Compostio ar y Fferm
Llyngyr yr iau mewn Gwartheg
Afiechyd Resbiradol mewn Gwartheg



LLAETH

Ysgothi Ymhlith Lloi
Systemau Pori
Gwella Iechyd Pridd

I weld rhestr lawn o fodiwlau a'r canllaw cynhwysfawr ar gwblhau modiwlau e-ddysgu, ewch i llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant



"Mae'n ffordd mor hawdd o gael mwy o wybodaeth, wedi ei gyflwyno ar yr union lefel gywir ac rydych yn dysgu ar eich cyflymder eich hun."



Hyfforddiant cyfrifiaduron wedi'i ariannu'n llawn ar eich cyfer CHI!

Ydych chi'n hyderus yn eich sgiliau cyfrifiadurol?

Peidiwch â cholli'r cyfle i fanteisio ar yr ystod eang o gymorth sydd ar gael trwy raglen TGCh Cyswllt Ffermio:

- ✓ Gallwch ddysgu ar gyflymder a lefel sy'n addas i chi
- ✓ Ar sail un i un neu mewn grŵp bach
- ✓ Gwersi ar lefel Dechreuwyr a Chanolradd ar gael gan diwtoriaid TGCh profiadol

Os ydych chi wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio, gallwch ddysgu sut i...

- Leihau faint o amser yr ydych chi'n ei dreulio ar waith papur y fferm neu'r coetir
- Datblygu eich sgiliau cyfrifiadurol i'r safon ofynnol
- Dysgu sut i wneud y defnydd gorau o e-bost, arbed ac anfon dogfennau, Microsoft Word, Excel, chwilio ar y we, marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol, defnyddio Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein a llawer mwy.

Datblygwch eich sgiliau cyfrifiadurol ac ar y we, a datblygwch eich hyder!

“Roedd y gwersi yn bleserus, ond eto'n addysgiadol ac yn ddefnyddiol iawn i ddechreuwyr fel fi.”

Mrs W Mold

“Tiwtor amyneddgar iawn. Cymwynasgar iawn.”

Mrs G Clynderwen

Ewch i wefan Cyswllt Ffermio, neu cysylltwch â'ch swyddog datblygu Cyswllt Ffermio lleol HEDDIW.

llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant



Cae dyfrlawn

Rheoliadau

Rheoli Llygredd Amaethyddol

**Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol)
(Cymru) 2021 – Pryd i wasgaru gwrtaith?**

Mae amodau tywydd y gaeaf yn cynyddu'r risg o lygredd o wasgaru gwrtheithiau organig, a rhai wedi eu gweithgynhyrchu, yn amhriodol. Mae rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn gosod amodau ar wasgaru gwrtheithiau organig a rhai wedi eu gweithgynhyrchu. Mae'r amodau hyn nawr ar waith ac mae'n rhaid i chi gydymffurfio gyda'r rheoliadau.



Cae gyda llethr serth a chwrs dŵr yn y gwaelod

Cyn gwasgaru unrhyw wrtaith, dylid cynnal archwiliad o'r cae er mwyn ystyried y risg o nitrogen a ddaw o wrtaith yn cymysgu â dŵr arwyneb. Nid oes angen i chi gofnodi archwiliad eich cae, fodd bynnag, efallai ni all gwasgaru gwrtaith nitrogen ddigwydd os oes risg sylweddol o nitrogen yn cymysgu â dŵr arwyneb. Rhaid ystyried y canlynol yn benodol:

- llethr y tir, yn enwedig os yw'r llethr yn fwy na 12° (yn gyfystyr â "20%" neu "1 mewn 5"),
- unrhyw orchudd tir,
- pa mor agos yw'r tir at ddŵr arwyneb,
- amodau'r tywydd,
- y math o bridd, a
- phresenoldeb draeniau tir.

Ni ddylid gwasgaru gwrtaith os yw'r pridd yn ddyfrlawn (fel y ceir ei ddiffinio yn y canllawiau), dan ddŵr, wedi ei orchuddio ag eira, wedi rhewi neu os oedd y pridd wedi rhewi am fwy na 12 awr yn ystod y 24 awr flaenorol.



Slyri wedi ei wasgaru ar dir wedi ei orchuddio ag eira

Ni ddylid gwasgaru tail organig o fewn 50 metr i dwll turio, ffynnon neu bydew neu o fewn 10 metr i ddŵr arwyneb (6 metr os yn defnyddio cyfarpar gwasgaru manwl).

Mae'r cyfnod caeedig ar gyfer gwasgaru gwrtaith nitrogen wedi ei weithgynhyrchu yn berthnasol ar gyfer glaswelltir (o 15 Medi i 15 Ionawr) a thir wedi'i droi (o 1 Medi i 15 Ionawr). Mae eithriadau'n berthnasol, gweler y canllawiau am fanylion.

Ni ddylid gwasgaru gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd o fewn 2 fetr i ddŵr arwyneb.

Rhaid ymgorffori tail dofednod, slyri a gweddillion treuliad anaerobig hylifol, a wasgarir ar wyneb pridd moel neu sofrl (ac eithrio pridd sydd wedi'i hau), yn y pridd cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac o fewn 24 awr fan hwyrach, oni bai bod cyfarpar gwasgaru manwl yn cael ei ddefnyddio.

Gellir gweld canllawiau manwl yn llyw.cymru/rheoli-tir



Iechyd a Diogelwch ar y Fferm

Trin da byw

Bob blwyddyn, mae nifer o ddamweiniau angheuol ar ffermydd yn digwydd oherwydd bod ffermwyr yn bod yn hunanfodlon heb gymryd y camau priodol i sicrhau eu diogelwch rhag eu hanifeiliaid.

Pan fyddwch chi'n gweithio gyda da byw, meddyliwch am yr hyn sy'n cynyddu'r risgiau.

1. Dewiswch a defnyddiwch offer pwrpasol i drin da byw yn ddiogel sydd wedi eu cynllunio yn dda ar yr iard, mewn adeilad neu mewn cae. Sicrhewch eu bod mewn cyflwr da.
2. Peidiwch byth â mynd i mewn i loc â tharw rhydd neu fuwch â llo wrth ei throed sydd heb ei chlymu.
3. Os yn bosibl, cadwch dda byw ar wahân i'r cyhoedd, dewiswch gaeau heb hawliau tramwy ar gyfer gwartheg a lloi wrth droed.

PEIDIWCH BYTH A CHYMRYD YN GANIATAOL Y BYDD ANIFEILIAID YN GWNEUD YR HYN YR YDYCH YN EI DDISGWYL IDDYNT WNEUD

www.hse.gov.uk/agriculture



@farmsafetywales



Diogelwch Fferm Cymru - Farm Safety Wales